| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 27 Chwefror 2018 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cyng. Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Pennaeth Cyllid |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Steve Gadd, Prif Gyfrifydd |
| **Teitl:** | **Adroddiad Ariannol (Ionawr 2017/18)** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion cyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2017/18. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi'r newyddion diweddaraf am sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor a chadarnhau'r cyllidebau gwasanaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer 2017/18.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

Argymhellir bod yr Aelodau yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2017/18 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2017/18 (**Atodiad 1**). Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £189.252 miliwn (£185.062 miliwn yn 16/17). Rhagwelir tanwariant o £233,000 mewn perthynas â'r cyllidebau corfforaethol a gwasanaeth. Mae'r naratif o amgylch y risgiau a'r rhagdybiaethau presennol sy'n sail i'r asesiad hwn yn cael eu hamlinellu yn Adran 6.

Cytunwyd ar arbedion o £0.902 miliwn fel rhan o'r gyllideb. Mae'r arbedion effeithlonrwydd hyn yn ffurfio rhan o'r elfen 'busnes fel arfer' ar gyfer gwasanaethau ac felly tybir y bydd yr holl arbedion effeithlonrwydd yn cael eu gwneud. Bydd unrhyw eithriad yn cael ei adrodd wrth y Cabinet.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn sylfaen i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae naratifau gwasanaethau pwysig yn egluro amrywiant a risgiau i'w gweld yn y paragraffau isod.

Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd **Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata** yn gorwario £116,000 (adroddwyd £126,000 y mis diwethaf). Mae'r pwysau yn bennaf oherwydd costau staff wrth gefn uwch na'r disgwyl a chostau TG ychwanegol. Mae'r lleihad yn y

gorwariant o’i gymharu â’r mis diwethaf yn ymwneud â swyddi gwag a gwneud y gorau o gyllid grant.

Rhagwelir erbyn hyn y bydd **Gwella a Moderneiddio Busnes** yn tanwario £17,000 (adennill costau yn yr adroddiad diwethaf) oherwydd cynnydd yn yr arbedion yn sgil nifer o swyddi gwag ar draws y gwasanaeth. Mae’r gwasanaeth yn gobeithio dwyn y tanwariant hwn ymlaen i dalu costau cyflenwi aelod o staff sy’n mynd ar gyfnod mamolaeth yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Rhagwelir o hyd y bydd **Gwasanaethau Cymorth Cymunedol** yn adennill costau. Fodd bynnag fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol mae hyn ar ôl dynodi cyllideb ychwanegol o £750,000 yn ystod proses gyllido 17/18, £633,000 o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, £500,000 o incwm ychwanegol un tro yn ymwneud ag incwm gohiriedig a defnyddio £1.1 miliwn o gronfeydd wrth gefn y gwasanaeth. Mae gorwariant o fewn y Gwasanaeth Iechyd Meddwl a’r Gwasanaethau Darparu Mewnol yn fwy na a ragwelwyd ac yn parhau i fod yn achosi pryder ar gyfer 18/19 ac wedi hynny. Mae’r pwysau hyn wedi eu hystyried fel rhan o broses gyllidebol 18/19 a chytunwyd ar y pwysau ariannu gan y Cyngor ar 30 Ionawr. Mae rhagor o waith ar y gweill i asesu goblygiadau ariannol y pwysau hyn ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd **Addysg a Gwasanaeth Plant** yn gorwario £512,000 (adroddwyd am orwariant o £570,000 y mis diwethaf). Mae’r lleihad o gymharu â mis diwethaf yn ymwneud â lleihad mewn costau lleoliadau y tu allan i'r sir yn sgil lleoliad yn dod i ben yn gynt na'r disgwyl (£19,000), mae £7,000 pellach yn ymwneud â methu llenwi swyddi gwag yn gyflym ac, yn olaf, mae gwariant o £32,000 bellach yn cael ei ariannu gan grant. Mae Gwasanaethau Plant yn parhau i fod yn faes risg uchel oherwydd natur gyfnewidiol niferoedd achosion a phwysau chwyddiannol ar gostau lleoliadau. Gall pob lleoliad unigol fod yn arbennig o ddrud ac felly gall unrhyw gynnydd mewn niferoedd gael effaith fawr ar y gyllideb. Fodd bynnag, mae amcanestyniad yr alldro yn cynnwys yr holl leoliadau cyfredol y tu allan i’r sir a ragwelir i amserlenni realistig. Cyfanswm y gorwariant yn erbyn cyllideb sylfaenol Gwasanaethau Plant yw £1,166,000 ar hyn o bryd (£1,224,000 yn adroddiad mis diwethaf). Fodd bynnag caiff hyn ei osod yn rhannol yn erbyn defnydd a gynlluniwyd o Gronfa Wrth Gefn Lleoliadau a gafodd ei rhoi o'r neilltu o adnoddau corfforaethol ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf (£522,000) a chyfraniad ariannol pellach gan Gronfeydd Wrth Gefn Corfforaethol o £132,000 ar gyfer achos arbennig o ddrud a sensitif yn ymwneud â phlant mewn canolfannau remand. Mae’r pwysau yn y maes hwn wedi eu hystyried fel rhan o broses gyllidebol 18/19 a chytunwyd ar y pwysau ariannu gan y Cyngor ar 30 Ionawr. Mae rhagor o waith ar y gweill i asesu goblygiadau ariannol y pwysau hyn ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Rhagwelir bellach y bydd **Cyllid, Asedau a Thai** yn tanwario £97,000 (adennill costau fis diwethaf). Mae’r rhan fwyaf o’r amrywiant (£58,000) yn ymwneud ag incwm annisgwyl ôl-ddyddiedig yn sgil mast ffôn symudol ar y Tŵr Awyr yn y Rhyl. Mae’r tanwariant sy’n weddill yn ymwneud â nifer o anfonebau o fewn eiddo yn llai na’r disgwyl a chyflawni ymrwymiadau arbed 2018/19 yn gynt. Mae’r gwasanaeth yn gobeithio gallu cario’r tanwariant hwn drosodd i ariannu gwaith atgyweirio mewn canolfannau hamdden.

Mae'r **Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd** yn dangos tanwariant o £27,00 oherwydd nifer o amrywiannau bach ac arbedion swyddi gwag ar draws y gwasanaeth (tanwariant o £18,000 y mis diwethaf).

Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd **Priffyrdd ac Amgylchedd** yn gorwario o £205,000 (£247,000 yn y cyfarfod Cabinet diwethaf).
Mae'r rhan fwyaf o'r gorwariant (£165,000) yn ymwneud â diffyg mewn incwm a ragwelir ar gyfer y Tîm Prosiectau Mawr. Mae hyn wedi bod yn broblem dros y blynyddoedd diwethaf (gorwariant o £45,000 y llynedd) ond maent wedi eu cynnwys o fewn dyraniad cyllideb y gwasanaeth. Mae'r prif reswm dros y diffyg incwm yn ymwneud â chyfanswm y gwaith ac ad-daliad gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.
Er bod pwysau o £0.300 miliwn wedi ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer Cludiant i'r Ysgol 2017/18, bydd angen monitro effaith gweithredu'r polisi newydd yn ofalus drwy gydol y flwyddyn. Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd Cludiant i'r Ysgol yn gorwario £34,000 yn dilyn adolygiad llawn o'r contractau y cytunwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd.
Rhagwelir ar hyn o bryd y gellir cynnwys effeithiau'r tywydd gaeafol diweddar ar gyllideb cynnal y gaeaf o fewn adnoddau presennol, er fel erioed, mae hyn yn parhau i fod yn gyllideb anweddol a gaiff ei monitro'n agos dros y misoedd nesaf. Mae gorwariant bach ar draws y gwasanaeth yn cyfrif am yr amrywiant gweddilliol.

**Corfforaethol** – Ar hyn o bryd amcangyfrifir y bydd cronfeydd corfforaethol wrth gefn ar gael i'w rhyddhau i gyllido gorwariant gwasanaethau, gan alluogi gwasanaethau i argymell dwyn unrhyw orwariant cymedrol drosodd. Bydd hyn yn golygu na fydd yn rhaid i ni ddefnyddio mwy na'r lefel o falansau sydd wedi eu cynnwys yn y gyllideb. Fodd bynnag mae'r posibilrwydd yn parhau y bydd gorwariant pellach gan wasanaethau yn golygu y bydd angen cyfraniad gan lefel sylfaenol balansau. Os yw'r sefyllfa o ran cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol yn parhau'n sefyllfa o danwariant, fel y rhagwelir ar hyn o bryd, yna dylid ystyried defnyddio'r cronfeydd i gynyddu Cronfa'r Blaenoriaethau Corfforaethol (i helpu i gyflawni'r blaenoriaethau) neu ar gyfer y Gronfa Liniaru (i liniaru effaith y toriadau i wasanaethau yn 19/20).

**Ysgolion** – Er bod ysgolion wedi derbyn amddiffyniad o 1.85% (£1.173 miliwn) ar gyfer 2016/17 maent hefyd wedi gorfod canfod arbedion effeithlonrwydd i ariannu pwysau chwyddiannol o oddeutu £2.5 miliwn. Roedd gan ysgolion ddiffyg net o £1.056 miliwn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, sef lleihad o £2.618 miliwn yn y balansau a ddygwyd ymlaen o 2015/16 (£1.562 miliwn). Ar ddiwedd mis Ionawr y rhagamcan ar gyfer balansau ysgolion yw balans diffyg net o £1.387 miliwn, sy'n ostyngiad o £0.331 miliwn ar falansau a ddygwyd ymlaen o 2016/17. Mae ysgolion yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr Cyllid Addysg ar gynlluniau ariannol manwl ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd a thros y ddwy flynedd ganlynol i ddarparu cyllidebau cytbwys yn yr hirdymor. Derbyniodd ysgolion gyfanswm ychwanegol o £2.1 miliwn yn 2017/18, sy'n fwy na chwyddiant a thwf demograffig. Bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n agos, gydag adroddiadau i'r Cabinet bob mis. Mae cyllidebau ysgolion sydd heb eu dirprwyo yn tanwario £79,000 ar hyn o bryd oherwydd y gostyngiad mewn rhwymedigaethau pensiwn hanesyddol ers cyfnod Cyngor Sir Clwyd.

**Y Cyfrif Refeniw Tai** - Mae'r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn tybio y bydd gostyngiad o £957,00 mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn, sef £642,000 yn fwy na'r £315,000

a gyllidebwyd oherwydd cynnydd mewn buddsoddiad yn Atgyweirio a Chynnal a Chadw. Felly rhagwelir y bydd balansau'r Cyfrif Refeniw Tai yn £1.590 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gyllideb gyfalaf o £10.15 miliwn yn cael ei rhannu rhwng gwelliannau arfaethedig i'r stoc dai bresennol (£6 miliwn) a derbyniadau a datblygiadau tai newydd (£4 miliwn).

**Rheoli'r Trysorlys** – Ar ddiwedd mis Ionawr, roedd cyfanswm benthyciadau'r Cyngor yn £203.96 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 4.49%. Roedd balansau buddsoddi yn £8.2 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 0.26%.

Mae crynodeb o **Gynllun Cyfalaf** y Cyngor yn **Atodiad 2**. Mae'r cynllun cyfalaf a gymeradwywyd yn £39.3 miliwn ac mae'r gwariant hyd yma yn £30.3 miliwn. Hefyd yn Atodiad 2 mae'r gwariant arfaethedig o £18.3 miliwn ar y Cynllun Corfforaethol. Mae **Atodiad 3** yn cynnwys diweddariad ar y prif brosiectau sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Cynhaliwyd Asesiad Lles ar gyfer elfen arbedion effeithlonrwydd cynigion y gyllideb a chafodd ei gyflwyno i'r Cyngor ar 31 Ionawr. Daeth yr asesiad i'r casgliad bod y cynigion effeithlonrwydd naill ai'n gadarnhaol neu'n niwtral o'u hasesu yn erbyn y saith nod lles

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, mae proses y gyllideb wedi ei hystyried gan gyfarfodydd y Tîm Gweithredol Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Briffio'r Cabinet a Briffio'r Cyngor. Cynhaliwyd gweithdai cyllideb rheolaidd gydag aelodau etholedig i archwilio cyllidebau gwasanaeth ac ystyried y cynigion o ran y gyllideb. Hysbyswyd yr holl aelodau o staff am y broses o osod y gyllideb ac ymgynghorwyd yn llawn â staff sy'n cael eu heffeithio neu bwriedir gwneud hynny, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol y Cyngor. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n parhau i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben o fewn y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig, yn arbennig o ystyried graddfa'r gostyngiadau y mae'n ofynnol eu gwneud yn y gyllideb yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf.

Mae pwysau penodol yn amlwg mewn cyllidebau gofal cymdeithasol (Oedolion a Phlant). Fodd bynnag, mae effeithiau'r pwysau hwn wedi cael eu hariannu gan y buddsoddiad mewn pwysau gwasanaethau yn ystod cyllideb 17/18, ad-dalu cronfeydd wrth gefn gwasanaethau ar ddiwedd blwyddyn a rhyddhau pethau annisgwyl corfforaethol i gyd-fynd ag unrhyw orwariant sy'n weddill. Mae sefyllfa'r ddau wasanaeth yn cael ei monitro'n ofalus ac maent wedi eu hystyried fel rhan o broses gyllidebol 2018/19. Yn ystod y gweithdai cyllideb yn yr hydref esboniwyd y sefyllfa ar gyfer y gwasanaethau hyn i Aelodau Cyngor Sir Ddinbych a fynychodd, a chytunodd y Cyngor ar y pwysau ariannol ar 30 Ionawr. Mae rhagor o waith ar y gweill i asesu goblygiadau ariannol y pwysau hyn ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Bydd y sefyllfa o ran balansau ysgolion yn cael ei monitro'n agos, gydag adroddiadau i'r Aelodau bob mis. Mae Cyllid Addysg yn gweithio'n agos iawn gydag ysgolion i ddatblygu cynlluniau cadarnhau ac, yn ogystal, mae prif ac uwch swyddogion addysg a chyllid yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu'r cynlluniau hynny a chymryd unrhyw gam gweithredu yn ôl yr angen. Mae'r gyllideb a gytunwyd gan y Cyngor ar gyfer 2018/19 yn cynnwys buddsoddiad o £1.8 miliwn yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae hwn yn parhau yn gyfnod ariannol heriol a bydd methu cyflawni'r strategaeth a gytunwyd o ran y gyllideb yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau yn y blynyddoedd ariannol presennol ac yn y dyfodol. Bydd monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.